# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

# ADOLYGU POLISI TROSGLWYDDO STOC DAI

## Pwrpas

1. Nodi cynigion manwl ar gyfer gweddill yr adolygiad o’r polisi trosglwyddo stoc dai.

## Crynodeb/Argymhellion

2. Gwahoddir y pwyllgor i ystyried yr amserlen fras ar gyfer gweddill yr adolygiad, gan gynnwys y materion penodol y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.

## Cefndir

3. Mae’r Pwyllgor wedi cytuno i adolygu’r polisi trosglwyddo stoc dai ac mae’r adolygiad wedi bod yn mynd rhagddo yn unol â’r cynigion yn LGH-02-00 (p.5). Mae Judy Wayne wedi’i phenodi fel ymgynghorydd arbenigol ac mae proses ymgynghori ysgrifenedig wedi cael ei chynnal. Mae’r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.

4. Mae’r papur hwn yn nodi cynigion manwl ar gyfer gweddill yr adolygiad, fel y maent wedi’u nodi ar yr amserlen amgaeedig (gweler Atodiad). Dyma’r prif bwyntiau:

### (i) Ymweld â chymdeithasau trosglwyddo stoc

Mae ymweliadau â chymdeithasau trosglwyddo stoc yn Lloegr yn cael eu trefnu ar gyfer dydd Llun 30 Hydref a dydd Gwener 10 Tachwedd. Bydd hyn yn cynnwys ymweliadau â’r *Somer Community Housing Trust* yng Nghaerfaddon, *South Somerset Homes* yn Yeovil a’r *Severn Vale Housing Association* yn Tewkesbury.

### ii. Dadansoddi’r ymatebion i’r broses ymgynghori

Caiff dadansoddiad o’r ymatebion i’r broses ymgynghori ysgrifenedig ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor ar 1 Tachwedd. Y bwriad yw cynnal sesiwn ymgynghori llafar yn hwyrach ym mis Tachwedd, a bydd angen i’r Pwyllgor benderfynu pa gymdeithasau/cyrff y dylid eu gwahodd i’r cyfarfod ar 1 Tachwedd.

iii. **Sesiwn ymgynghori llafar**

Brynhawn Iau 23 Tachwedd, bwriedir cynnal sesiwn ymgynghori llafar yn ystod yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer trafod gwaith ychwanegol y Pwyllgor. Dylai hyn roi cyfle i'r Pwyllgor glywed barn rhwng chwe ac wyth cymdeithas/corff.

Cyn y gellir defnyddio'r amser hwn ar yr amserlen, bydd angen cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes (Mae'n ofynnol bellach i ofyn i'r Pwyllgor Busnes os bydd pwyllgorau pwnc yn dymuno cyfarfod ar brynhawn Iau neu ar adegau eraill y tu allan i'r amserlen).

iv. **Ystyried materion sy'n dod i'r amlwg a'r amlinelliad o strwythur yr adroddiad**

Yn ngoleuni'r sesiwn ymgynghori llafar, paratoir papur ar faterion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y cyfarfod ar Rhagfyr 13. Caiff cynigion ar strwythur yr adroddiad hefyd eu rhoi gerbron y cyfarfod hwn.

v. **Ystyried argymhellion allweddol**

Caiff papur sy'n nodi argymhellion allweddol ei baratoi ar gyfer cyfarfod cyntaf tymor y gwanwyn, a fydd yn adlewyrchu trafodaethau'r Pwyllgor ar y materion sy'n dod i'w amlwg.

vi. **Ystyried drafft cyntaf yr adroddiad**

Caiff y drafft llawn cyntaf o'r adroddiad ei gyflwyno gerbron trydydd cyfarfod tymor y gwanwyn, gan adlewyrchu barn y Pwyllgor am argymhellion allweddol.

vii. **Llofnodi'r adroddiad**

Caiff yr adroddiad ei ailddrafftio ar ôl rhoi ystyriaeth i farn y Pwyllgor am y drafft cyntaf, ac yna caiff ei lofnodi ym mhumed cyfarfod tymor y gwanwyn.

5. Yn ôl y cynigion hyn, mae'n debyg na chaiff yr adroddiad ei gwblhau erbyn y dyddiad sydd ar yr amserlen a luniwyd ym mis Mai. Fodd bynnag, maent yn cymryd i ystyriaeth adolygiad a gynhaliwyd gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau dros yr haf ar wersi a ddysgwyd wrth adolygu polisïau. Mae hyn wedi profi bod angen bod yn realistig wrth gynllunio a chaniatáu digon o amser i feddwl a thrafod, ynghyd â digon o amser i lunio'r adroddiad ei hun. O ystyried y

profiad mae Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor wedi’i gael ag adolygiadau eraill, mae’r hyn a awgrymir yma yn uchelgeisiol, ond credir ei fod yn bosibl o ystyried pa mor benodol yw’r adolygiad.

**Materion i’w hystyried**

6. Cydnabyddir na ellir pennu hynt yr adolygiad yn llawn ymlaen llaw, gan y bydd llawer yn dibynnu ar y posibiliadau y bydd Aelodau yn dymuno mynd ar eu trywydd yng ngoleuni’r wybodaeth a ddaw i’r amlwg yn ystod yr adolygiad. Fodd bynnag, at ddibenion cynllunio, byddai’n ddefnyddiol i gael barn y Pwyllgor am yr amserlen fel y mae ar hyn o bryd. Y brif fantais yw y bydd hyn yn galluogi Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau i roi dyddiadau perthnasol yn nyddiaduron yr Aelodau mewn da bryd.

7. Dyma rai o’r materion penodol ar yr amserlen:

- A ddylid cynllunio mwy o ymweliadau ar hyn o bryd?
- A yw un sesiwn ymgynghori llafar yn debygol o fod yn ddigon? Mae’n sir y byddai angen neilltuo mwy o amser ar yr amserlen er mwyn cynnal sesiwn arall, ac mae lle ar agendâu cyfarfodydd bore Mercher y tymor hwn yn brin.
- A ddylid cael sesiwn "saethu syniadau" anffurfiol i drafod materion sy’n dod i’r amlwg ac argymhellion posibl? Os felly, byddai angen neilltuo lle ar gyfer hyn ar yr amserlen tua’r Nadolig.
- A fyddai’n well gan y Pwyllgor weld mwy nag un drafft cyflawn cyn llofnodi’r adroddiad?
- A hoffai’r Pwyllgor ystyried cynnal proses ymgynghori arall gyda chyrff sydd â diddordeb ar sail adroddiad drafft? Dylai hyn helpu i wella’r argymhellion, er y byddai’n ymestyn hyd yr adolygiad.

8. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai’r Pwyllgor yn gallu cadarnhau ei fod yn fodlon defnyddio’r amser sydd wedi’i neilltuo i drafod gwaith ychwanegol y Pwyllgor ar brynhawn Iau 23 Tachwedd, fel bod modd gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Hydref 2000**

**ATODIAD**

**ADOLYGU POLISI TROSGLWYDDO STOC DAI**

**AMSERLEN FRAS**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun 30 Hydref | Ymweld â chymdeithasau trosglwyddo stoc |
| | |
| Dydd Mercher 1 Tachwedd | Ystyried yr ymatebion i’r broses ymgynghori. Penderfynu pa gymdeithasau/cyrff y dylid eu gwahodd i’r ymgynghoriad llafar |
| | |
| Dydd Gwener 10 Tachwedd | Ymweld â chymdeithasau trosglwyddo stoc |
| | |
| Dydd Mercher 15 Tachwedd | Ymweld â chymdeithasau trosglwyddo stoc |
| | |
| Dydd Iau 23 Tachwedd | Sesiwn ymgynghori llafar |
| | |
| Dydd Mercher 29 Tachwedd | Cyfarfod heb unrhyw waith adolygu polisi |
| | |
| Dydd Mercher 13 Rhagfyr | Ystyried materion sy’n dod i’r amlwg a’r amlinelliad o strwythur yr adroddiad |
| | |
| Cyfarfod cyntaf, Tymor y Gwanwyn | Ystyried rhestr o argymhellion allweddol |
| | |
| Ail gyfarfod, Tymor y Gwanwyn | Cyfarfod heb unrhyw waith adolygu polisi |

| | |
|---|---|
| | |
| Trydydd cyfarfod, Tymor y Gwanwyn | Ystyried drafft cyntaf yr adroddiad |
| | |
| Pedwerydd cyfarfod, Tymor y Gwanwyn | Cyfarfod heb unrhyw waith adolygu polisi |
| | |
| Pumed cyfarfod, Tymor y Gwanwyn | Y Pwyllgor yn llofnodi’r adroddiad drafft |
| | |
| + 1 wythnos | Cyhoeddi adroddiad electronig |
| | |
| + 3 wythnos | Cyhoeddi adroddiad papur |
| | |